Dan embargo tan ddydd Iau 28ain Medi, 2017.

MIS HANES POBL DDUON CYMRU 2017

Datganiad swyddogol i'r wasg – lansiad

Thema:

EIN SÊR. EIN DYFODOL. EIN HANES:
DENG MLWYDDIANT 2017

Mae Mis Hanes Pobl Dduon Cymru (*Black History Month Wales*/BHMW) yn dathlu ei **10fed flwyddyn yng Nghymru!**
Ein nod yw arddangos a rhannu cyfraniadau pobl o dras Affricanaidd o'r boblogaeth sydd ar wasgar fel rhan o'r hanes a rannwn, trwy gynnal amrywiaeth eang o weithgareddau addysgiadol a chreadigol ar gyfer pobl o bob oedran. Mae Race Council Cymru, fel corff arweiniol ar gyfer hil yng Nghymru a sefydlwyd gan leiafrifoedd ethnig, yn rheoli a chydlynu gwaith Cymru gyfan ar Hanes Pobl Dduon. Mae rhwydwaith Hanes Pobl Dduon Cymru yn cynnwys dros 107 o fudiadau ledled Cymru fel: elusennau ieuenctid, grwpiau cymunedol, ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch sy'n cynrychioli pobl o wahanol ddiwylliannau, ffydd a lleoliadau daearyddol ar ein pwyllgor llywio. Mae'r rhain yn cynnwys Amgueddfa Cymru; Y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd – Cymru; Prifysgolion Caerdydd a Bangor; ysgolion; Tîm Cymorth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (MEAS); Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot; Canolfan Wirfoddoli Caerdydd @C3SC; y Gymdeithas Jamaicaidd; Canolfan Mileniwm Cymru; Barnardo's Cymru; Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Undebau Llafur yng Nghymru a llawer iawn mwy.

I ddathlu BHMW 2017, thema'r flwyddyn yw **"EIN SÊR. EIN DYFODOL. EIN HANES: Deng Mlwyddiant 2017"** (Hashnod #BHMWales10)

Y llynedd, cafodd digwyddiadau Mis Hanes Pobl dduon, yn cynnwys y Gwobrau Ieuenctid a'u henillwyr, sylw cenedlaethol ar brif raglenni Newyddion y BBC a Newsweek ar ITV. Eleni, rydym yn anelu'n uwch byth a hoffem i chi gymryd rhan – felly rydym yn eich gwahodd i fynychu unrhyw rai o'r digwyddiadau isod:

- Lansiad Llywodraeth Cymru:

Cynhelir seremoni Gwobrau Ieuenctid Hanes Pobl Dduon Cymru dydd Gwener 29ain o Fedi 2017 12yh–4yh yn Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd, CF10 4PZ.
Cynhelir y digwyddiad hwn gan yr Athro Mark Drakeford AC dros Orllewin Caerdydd, Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Cyllid a Llywodraeth Leol. Mae'r gwobrau yn cynnig llwyfan i gydnabod a dathlu llwyddiannau pobl ifanc o dras Affricanaidd yng Nghymru.

- **Lansiad ffurfiol Rhaglen Celfyddydau Creadigol ar gyfer Mis Hanes Pobl Dduon Cymru: Cynhelir gan Vaughan Gething AC**

Dydd Sadwrn 30ain Medi 2017 12yh–5.30yh yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NP.

- **Lansiad Gogledd Orllewin Cymru ym Mangor:**

Dydd Sadwrn 30ain Medi 2017 am 10yb, Storiel, Ffordd Gwynedd, Bangor LL57 1DT.

- **Lansiad Gogledd Cymru yn Wrecsam:**

Dydd Sul 1af o Hydref 2017 2yh–6yh yn Saith Seren, 18 Heol Caer, Wrecsam LL13 8BG.

- **Dathliadau Diweddglo BHMW 2017:**

Dydd Sul 29ain Hydref 2017 11.30yb–8yh yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, Bae Caerdydd, CF10 5AL.

Ar gyfer ymholiadau'r wasg/cyfryngau, anfonwch ebost at:
info@racecouncilcymru.org.uk **neu** gallwch ein ffonio ar: 07838360979

Am wybodaeth bellach ewch at:

www.racecouncilcymru.org.uk **neu** www.bhmwales.org.uk

\Diwedd y datganiad i'r wasg./

Dan embargo tan ddydd Iau 28ain Medi, 2017